CYNGOR TREF NEFYN

# COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 10/12/2024 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Gito Williams | Wil Lake | Catrin Roberts | Gwynfor Jones |
| Lleucu Jones | Gareth Jones | Caren Jones | Arfon Hughes | Pat Humphreys (Clerc) |

Croesawyd yr aelod newydd i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

1. **Ymddiheuriadau.**
   Alaw Llewelyn Roberts, Iwan Evans, Rhian Sanson a Rhys Llewelyn

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Gareth Jones – eitem 9.2.
   Pat Humphreys – eitem taliad i wirfoddolwr.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 12/11/2024
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Gwynfor Jones  Eilio: Arfon Hughes

4. **Unrhyw Fater Brys**
   1. **Polisi gosod lleol –** Gruffydd Williams

   Gan nad yw aelod lleol Nefyn yn bresennol heno i gyflwyno'r mater a bod y wybodaeth amdano ddim wedi cael ei anfon ddigon buan i'r aelodau fedru mynd drwyddo a'i ddeallt cyn y pwyllgor penderynwyd rhoi'r mater ar agenda mis Ionawr.

5. **Oriau ychwanegol y Clerc –** trefnu'r coed nadolig a'r gwasanaethau goleuo
   Mae'r aelodau wedi cael copi o oriau ychwanegol y clerc ar gyfer trefnu'r coed nadolig a'r gwasanaethau goleuo.
   Penderfyniad: pasiwyd i dalu'r clerc am ei oriau ychwanegol.
   Cynnig: Arfon Hughes  Eilio: Gareth Jones

6. **Hysbysiad Cwblhau Archwiliad 2023-2024 –** Clerc
   Derbyniwyd hysbysiad o gwblhau archwiliad 2023-2024 gan Archwilio Cymru ac mae'r aelodau wedi cael copi ohono. Mae yn datgan nad oedd unrhyw faterion wedi dod i'w sylw i roi achos i bryderu mewn unrhyw ffordd berthnasol ar y wybodaeth a adroddwyd yn y Ffurflen Flynyddol sydd yn golygu fod bob dim wedi ei basio yn iawn. Fodd bynnag mae argymhelliad wedi ei wneud ynglŷn â gwirio rhifyddeg a chysondeb y Datganiad Cyfrifyddu mewn perthynas a'r talgrynnu mân ond pwysleisir nad yw hyn yn effeithio ar eu barn archwilio ond y dylai'r Cyngor fynd i'r afael â

hwy. Nid yw'r clerc yn gallu gweld beth y maent yn ei gyfeirio ato ac nid yw'r Archwilwyr Mewnol wedi codi hyn felly mae'r clerc am drio cael eglurhad pellach gan Archwilio Cymru.

7. **Llwybr o flaen tafarn Ty Coch –** diweddariad - Gareth Jones
Cafwyd eglurhad gan aelod lleol Morfa ac Edern ar y mater yma. Mae o wedi cysylltu hefo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gan mai nhw sydd yn gyfrifol am yr ardal yma, i gwyno am hyn ac maent wedi ymateb gan ddweud y byddent yn cysylltu hefo eu asiant tir sydd yn rheoli pob cytundeb rhent hefo'r tenantiaid i godi'r mater yma hefo nhw. Mae o wedi trio eu ffonio heddiw ond nid oes neb yn ateb felly mae o am dal i drio. Mae un o'r aelodau am fynd i siarad hefo perchennog y ty sydd wedi rhoi y rhwystr yn ei le i drio cael datrusiad.
Penderfyniad: ei roi ar agenda mis nesaf i gael diweddariad.

8. **Trwsio 'patch' damp ar do'r Llyfrgell –** Clerc
Derbyniodd y clerc ebost gan weithiwr y llyfrgell yn dweud bod patch damp wedi ymddangos ar y nenfwd ar ôl y glaw trwm.
Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo adeiladwr lleol i fynd yno i gael golwg arno.
Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Catrin Roberts

9. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
   1. **Ebost Cyngor Cymuned Botwnnog** – cais am gefnogaeth – cais i Adra i dynnu Apêl cais cynllunio Cae Capel Botwnnog yn ôl
   Penderfyniad: pasiwyd i gefnogi Cyngor Cymuned Botwnnog.
   Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Catrin Roberts
   2. **Cais am gyfraniad ariannol** – Amgueddfa Forwrol Llŷn
   Penderfyniad: cytunwyd i roi cyfraniad i'r Amgueddfa mewn egwyddor ond gan nad oes gan y Cyngor Tref arian ar gael ar hyn o bryd pasiwyd i'w roi ar agenda mis Mai ac egluro'r sefyllfa iddynt.
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gwynfor Jones
   3. **Ebost Cymunedoli Cyf –** dewis dau gynrychiolydd i fynychu'r cyfarfodydd
   Penderfyniad: enwebwyd dau aelod i fynychu'r cyfarfod ym mis Ionawr.
   4. **Llythyr Megan Williams –** llwybr cyhoeddus ger Gwesty Bryn Noddfa, Morfa Nefyn
   Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo adran llwybrau Cyngor Gwynedd i anfon copi o'r llythyr iddynt ac i ofyn iddynt roi arwyddion newydd i fyny gan mai Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am y llwybrau cyhoeddus.
   Cafwyd nifer eraill o gwynion gan yr aelodau am lwybrau ac arwyddion yn yr ardal felly mae'r clerc am basio'r neges i'r adran berthnasol yn Cyngor Gwynedd.

10. **Ceisiadau Cynllunio**
**C24/0980/42/LL –** Glan Rhyd, Mynydd Nefyn – Cais llawn i godi estyniad i sied bresennol er mwyn dapraru gofod ychwanegol ar gyfer storio deunyddiau, coed, offer a pheiriannau ynghlwm a busnes adeiladu a thorri coed.

## COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 10/12/2024 am 7yh

Penderfyniad: dim gwrthwynebiad.
Cynnig: Gito Williams  Eilio: Arfon Hughes
**C24/1020/42/LL –** Cae'r Odyn Caravan Park, Lôn Llan, Edern – ail-leoli dwy garafan sefydlog o fewn maes carafanau sefydlog presennol ynghŷd â gwelliannau amgylcheddol.
Penderfyniad: dim gwrthwynebiad.
Cynnig: Gareth Jones  Eilio: Gito Williams

**11. Ceisiadau Diweddarach**

**12. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1,407.78 (taliad Bacs)
- Nefyn Foods Ltd – rent Siop Siarad - £780.00
- Amberol Ltd – tri planter tair tier - £1520.40
- D M Parry – chweched taliad mynwent Morfa Nefyn - £200.00
- Christmas Tree Supplies – 3 coeden nadolig - £1332.00
- John Gwynfor Jones – agor bedd Enid Rees Roberts a Brian John Owen - £1100.00
- Alan Adams – taliad 9 cytundeb llwybrau a gwaith ychwanegol - £1340.00
- HMRC – Paye mis 8 - £353.53
- E.On Next – trydan Llyfrgell mis Tachwedd - £199.85
- Dyfan Alun Humphreys – gwaith gwirfoddol - £75.00

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Mared Llywelyn Williams  Eilio: Arfon Hughes

**13. Taliadau wedi eu derbyn**

- Siop Gwyneth – coeden nadolig Morfa - £20.00
- Selwyn Pritchard Celtic Heritage – coeden nadolig Morfa - £150.00
- Ysgol Yrru Kelly – coeden nadolig Morfa - £25.00
- Clwb Golff Nefyn – coeden nadolig Morfa - £50.00

**Pont Edern**

Mae un o aelodau Edern dal yn bryderus am ardal y bont yn Edern ac yn cael cwynion yn ddyddiol am y difrod yma. Mae nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud i'r bont a'r ardal ac mae cwynionn wedi cael eu rhoi i fewn i'r awdurdodau perthnasol ynglŷn â hyn. Mae'r blwch post wedi cael ei symud ac mae'r post brenhinol wedi ei roi yn ôl i'w le gwreiddiol, mae cerrig wedi cael eu tynnu oddi ar y bont ac mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn eu rhoi yn ôl ond mae'r cerrig wedi cael eu tynnu eto. Mae'r bollard oedd yno wedi cael ei dynnu ac mae Cyngor Gwynedd wedi ei roi yn ôl yn ei le ond ar ôl y penwythnos mae'r bollard wedi cael ei dynnu eto er ei fod wedi cael ei roi mewn sylfaen tyfn iawn gan Cyngor Gwynedd a'r

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

storm sydd yn cael bai. Mae aelod lleol Morfa ac Edern yn gwybod am y broblem ac yn cadw mewn cysylltiad hefo Cyngor Gwynedd ynglŷn â hyn felly fe fydd rhaid cadw llygaid ar y sefyllfa.

**Taliad i wirfoddolwr**

Mae un o aelodau Edern yn awyddus i roi taliad i mab y clerc sydd wedi bod yn helpu allan hefo gwaith y Cyngor Tref, nid oedd yn disgwyl cael ei dalu ac yn falch o gael helpu'r Cyngor Tref allan ond mae'r aelod yma yn awyddus i roi rhywbeth iddo. Y gwaith mae o wedi ei wneud ydi, nôl arwyddion 'ffordd ar gau' o Siop Siarad a mynd a nhw i Edern a Nefyn ar gyfer gwasanaethau Sul y Cofio a Dydd y Cofio a'u casglu wedyn a mynd a nhw yn ôl i Siop Siarad, nôl yr arwyddion yma eto a mynd a nhw o amgylch Nefyn ar gyfer gwasanaeth goleuo coeden nadolig Nefyn a'u casglu wedyn a mynd a nhw yn ôl i Siop Siarad, a rhoi arwydd 'Diffib' i fyny ar y ffens sydd yn y Ganolfan yn Edern.

Penderfyniad: rhoi taliad o £75 iddo.

Cynnig: Catrin Roberts Eilio: Mared Llywelyn Williams